NICE National Institute for Health and Care Excellence

# System seiliedig ar gwmwl ProKnow ar gyfer storio data radiotherapi, cyfathrebu a rheoli

22 Mawrth 2023

Mae NICE wedi dweud y gellir defnyddio system seiliedig ar gwmwl ProKnow yn y GIG i storio, cyfathrebu a rheoli data radiotherapi. Gellir ei defnyddio yn y GIG wrth i ragor o wybodaeth am Proknow gael ei chasglu.

System seiliedig ar gwmwl yw ProKnow a ddefnyddir gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol i bobl sy'n cael radiotherapi wedi'i drefnu. Mae'n cynnwys offer cyfathrebu, meddalwedd dadansoddi a chronfa ddata i fewnforio, dadansoddi a storio data cleifion yn ddiogel.

Mae'r GIG yn casglu tystiolaeth am sut y caiff ProKnow ei ddefnyddio a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae'n bosibl y gofynnir i chi a ellir casglu manylion eich triniaeth radiotherapi fel tystiolaeth. Gallwch ofyn i'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol am ragor o wybodaeth am sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei storio a'i defnyddio.

© **NICE 2025**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-7782-6